

Arolygiad o Bractis Orthodontig (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro, Y
Ganolfan Orthodontig**

Dyddiad arolygu: 5 Ionawr 2017

Dyddiad cyhoeddi: 6 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o'r Ganolfan Orthodontig yn Beck Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, CF23 8RP, ar 5 Ionawr 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y Ganolfan Orthodontig yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ac orthodontig ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae'r Ganolfan Orthodontig yn darparu gwasanaethau orthodontig arbenigol i gleifion yn ardal Caerdydd, ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau orthodontig a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r Ganolfan Orthodontig yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau orthodontydd, un deintydd, un hylenydd, dau therapydd, saith nyrs, pedwar aelod o staff derbynfa, ac un rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau orthodontig y GIG a gwasanaethau orthodontig preifat.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y Ganolfan Orthodontig yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff yn dangos proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer orthodontig
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X ac offer dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch staff a thîm y practis.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Roedd rhai cyfleusterau clinigol roedd angen rhoi sylw iddynt a'u diweddarau
- Roedd angen i orthodontyddion wella agweddau ar y ffordd roeddent yn cadw cofnodion.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddisbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau orthodontig a ddarperir. Cafodd cyfanswm o 20 eu cwblhau a'u dychwelyd i ni. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

'Mae'r staff bob amser yn rhoi o'u hamser i ateb ymholiadau a'ch hysbysu am y camau nesaf.'

'Mae'r staff yn barod iawn eu cymwynas, yn gyfeillgar, a bob amser yn barod i fod yn hyblyg ynghylch apwyntiadau. Mae'n amgylchedd braf i gael triniaeth ynddo. Mae'r orthodontyddion yn gyfeillgar iawn ac yn siaradus. Mae'r ganolfan yn berffaith, yn hynod o lân, yn fodern ac yn gyfforddus. Byddwn i'n argymhell y Ganolfan Orthodontig i unrhyw un!'

'Rwy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth a'r canlyniadau ar gyfer y tri phlentyn sydd gen i.'

'Bodlon tu hwnt, gwasanaeth rhagorol, proffesiynol iawn a hynod o gymwynasgar.'

Gofal gydag urddas

Gwelsom fod y rhyngweithio rhwng y cleifion, aelodau teuluol a thîm y practis yn barchus ac yn broffesiynol.

Roedd yr holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod yr holl gleifion yn fodlon ar y gofal a gawsant. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael croeso yn y practis. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynglŷn â lefel y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn ac agwedd a dull gweithredu holl dîm y practis.

Roedd y practis yn darparu triniaethau orthodontig preifat a thriniaethau orthodontig y GIG. Roedd gwybodaeth ynghylch prisiau triniaethau orthodontig

preifat yn cael ei harddangos ym manau aros y practis. Golygai hyn fod gan gleifion fynediad at wybodaeth ynglŷn â faint y gallai eu triniaeth ei gostio. Roedd cyfleuster credyd ar gael i gleifion, yn amodol ar rai meini prawf, sydd yn eu galluogi i dalu am driniaeth dros gyfnod hirach. Roedd gan y practis gytundeb credyd defnyddwyr ar waith er mwyn gallu cynnig y cyfleuster hwn.

Roedd gan y practis daflen wybodaeth i gleifion fynd â hi ac roedd hon yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y practis. Gellir hefyd dod i hyd i wybodaeth am y practis ar ei wefan.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a wnaeth gwblhau holiaduron wrthym nad oeddent wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan orthodontydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn ar gael drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys wedi'i arddangos yn glir ger drws blaen y practis, ar neges peiriant ateb y practis, yn nhaflen wybodaeth y practis, ac ar wefan y practis.

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth am hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am eu hylendid ac iechyd y ceg eu hunain.

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a oedd wedi cwblhau a dychwelyd holiaduron wrthym ei fod yn credu ei fod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am ei driniaeth orthodontig.

Gofal unigol

Lleolir y practis mewn adeilad dau lawr pwrpasol. Ar adeg yr arolygiad, roedd llawr daear y practis wrthi'n cael ei ailwampio, ac nid oedd ar agor i gleifion. Roedd dwy ystafell driniaeth ar lawr cyntaf y practis: un ystafell driniaeth i gleifion unigol ac un ystafell driniaeth cynllun agored gyda dwy gadair i gleifion. Dywedwyd wrthym y byddai gan y llawr daear yn dilyn y gwaith ailwampio un ystafell driniaeth i gleifion unigol, ac un ystafell driniaeth cynllun agored gyda phedair cadair i gleifion. Cawsom ein hysbysu gan y practis nad oedd cyfrinachedd gleifion na'u preifatrwydd yn cael eu peryglu gan ystafelloedd triniaeth cynllun agored oherwydd y gellid cynnal unrhyw drafodaethau â chleifion oedd eu hangen mewn ystafell gyfarfod breifat neu yn yr ystafell driniaeth i gleifion unigol.

Roedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadair olwyn a'r rhai hynny oedd â phroblemau symudedd. Ar ben hynny, roedd yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear wedi cael eu cynllunio i fod yn hygyrch hefyd ar ôl iddynt ailagor.

Roedd y practis yn rhannu gwybodaeth â chleifion am sut i leisio pryder (cwyn). Roedd cleifion hefyd yn gallu darparu adborth drwy flwch awgrymiadau a thrwy arolygon cleifion rheolaidd.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat ynglŷn â sut i leisio pryder wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym mai anaml iawn y mae'r practis yn derbyn cwynion, ond disgrifiwyd proses addas pe bai un yn cael ei derbyn. Byddai hon yn caniatáu i'r practis adolygu pryderon (yn llafar ac yn ysgrifenedig), cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, a rhoi adborth i gleifion ynghylch unrhyw gamau gweithredu.

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi adborth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir trwy flwch awgrymiadau yn ardal derbynfa'r practis. Dywedwyd wrthym y cesglir barn cleifion drwy holiaduron cleifion ar ddiwedd y driniaeth. Gwelsom fod yr holiaduron yn cael eu hadolygu a'u hystyried gan y practis er mwyn adnabod ffyrdd o wella profiad y claf.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r offer dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

Er bod y cyfleusterau clinigol o safon uchel, roedd angen gwneud gwelliannau i sicrhau y gellir cyflawni glanhau effeithiol.

Gofal diogel

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Lleolir y practis ar ddau lawr ac, ar adeg yr arolygiad, roedd llawr daear y practis wrthi'n cael ei ailwampio, ac nid oedd ar agor i gleifion. Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn ymddangos fel ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu fewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, fe welsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ar y cyfan heb unrhyw beryglon amlwg. Yn ystod diwrnod yr arolygiad, gwelsom fod llawr un o'r ystafelloedd triniaeth yn frith o ddarnau o ddeunyddiau gwastraff orthodontig oedd wedi eu taflu. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno proses er mwyn sicrhau bod lloriau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw'n lân bob amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gyflwyno proses er mwyn sicrhau bod lloriau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus rhwng pob apwyntiad.

Gwelsom fod offer diogelwch rhag tân ar gael mewn gwahanol fannau o gwmpas y practis. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis contract ar waith i wasanaethu'r offer diogelwch tân bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar offer trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchid gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio tu allan i adeilad y practis wrth iddo aros i gael ei gasglu gan gwmni'r

contractwr. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor sir lleol.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod tâp yn cael ei ddefnyddio yn un o'r ystafelloedd triniaeth i orchuddio bylchau yn y llawr nad oeddent wedi'u selio a gwnaethom argymhell bod angen selio'r llawr fel y gellid ei lanhau'n effeithiol i leihau croes-heintio. Cytunodd y practis i wneud hyn. Gwelsom hefyd fod gan yr ystafelloedd triniaeth arwynebau gwaith gwydr a bod dau ddarn wedi'u huno gyda seliwr. Gwelsom fod hyn wedi creu 'pant' rhwng y ddau ddarn o wydr ac, o ganlyniad, roedd yn anodd eu glanhau. Rhaid i'r practis sicrhau y rhoddir mesurau ar waith fel y gellir glanhau'r arwynebau gwaith yn effeithiol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio mewn modd priodol (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r llawr nad yw wedi'i selio yn yr ystafell driniaeth y tynnwyd sylw'r practis ati.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr arwynebau gwaith yn yr ystafelloedd triniaeth a nodwyd wedi'u selio'n briodol fel y gellir eu glanhau'n effeithiol.

Edrychom ar yr offer a'r cyfarpar sydd ar gael i'r staff clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod y goleuadau caledu¹ a oedd yn cael eu defnyddio gan y staff clinigol mewn cyflwr gwael ac wedi'u rhwymo gyda thâp inswleiddio. Er diogelwch, rhaid i'r practis ddisodli offer sydd mewn cyflwr gwael. Dywedwyd wrthym fod sylw uwch reolwyr wedi cael ei dynnu at y broblem hon cyn hyn, ond nid oedd cael offer newydd wedi cael ei awdurdodi. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am ein canfyddiadau, a chytunwyd i fynd i'r afael â hyn.

Gwelsom fod rhywfaint o offer a deunyddiau a oedd wedi cael eu sterileiddio ac yn cael eu storio yn yr ystafelloedd triniaeth wedi mynd heibio'u dyddiad dod i ben. Tynnwyd sylw'r practis at hyn a dywedwyd wrthym fod rhywfaint o offer a deunyddiau, nad oeddent wedi cael eu defnyddio, wedi cael eu symud i lawr cyntaf y practis yn ystod y cyfnod o ailwampio'r practis. Cytunodd y practis i

¹ Offer a ddefnyddiwyd i lynu deunydd deintyddol at y dannedd.

symud a gwaredu ar unrhyw offer a deunyddiau a oedd heb eu defnyddio ac wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben ar unwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl offer a'r cyfarpar sy'n cael eu defnyddio gan y staff clinigol mewn cyflwr addas a bod rhai newydd yn cael eu prynu yn ôl y galw.

Mae'n rhaid bod gan y practis broses gadarn er mwyn archwilio'r holl offer a deunyddiau nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach, a/neu sydd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben, a gwaredu arnynt mewn modd priodol.

Yn ddiweddar, roedd y practis wedi newid lleoliad yr ystafell ddadheintio i lawr cyntaf y practis yn ystod y cyfnod o ailwampio'r llawr daear. Gwelsom fod yr ystafell a oedd wedi'i gosod yn bodloni ar y cyfan yr egwyddorion yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).² Gwelsom fod angen selio'r llawr hyd at y waliau yn un o'r ystafelloedd dadheintio er mwyn caniatáu glanhau effeithiol i leihau croes-heintio. Gwnaeth y practis gadarnhau y byddai'r ystafell ddadheintio yn cael ei symud yn ôl i lawr daear y practis ymhen un mis o fod wedi cwblhau'r gwaith ailwampio. Yn ystod y cyfnod ailwampio, atgoffwyd y practis bod angen rhoi gofal a sylw priodol er mwyn sicrhau bod yr ystafell yn parhau i gael ei glanhau mewn modd effeithiol a thrwyadl.

Roedd yr offer dadheintio yn ymddangos mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd dau beiriant awtoclaf³ yn cael eu defnyddio ac roedd tystysgrifau gosod/archwilio ar gael a oedd yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

² [Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

³ Siambwr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Roedd y staff yn dangos proses drwyadl ar gyfer dadheintio, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod staff nyrso wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croesheintio. Gwelsom fod rhai bagiau a oedd wedi cael eu selio yn cynnwys mwy nag un teclyn llaw. Gwnaethom hysbysu'r practis am y mater hwn, a gwnaethant gytuno nad oedd yn briodol i storio mwy nag un teclyn llaw mewn bag a oedd wedi'i selio. Cytunodd y practis i weithredu ar y mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau mai dim ond un teclyn llaw deintyddol sy'n cael ei storio mewn bag wedi'i selio ar ôl cael ei ddadheintio.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis ystyried defnyddio dull gwahanol i gynnal archwiliadau rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod unrhyw feysydd i'w gwella yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Cytunodd y practis i wneud hyn a'i ddefnyddio fel mesur wrth ystyried y llawr daear oedd wrthi'n cael ei adnewyddu ac ar fin cael ei gwblhau.

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwympto). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer wedi cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU),⁴ i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai eu hangen. Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi diweddarau eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis yn cymryd radiograffau cleifion (peydrau-X) tra oedd y gwaith ailwampio ar y llawr daear ar waith am fod yr ystafell radiograffig a'r offer wedi'u lleoli ar y llawr daear. Dywedwyd wrthym nad oedd cynlluniau ar waith i newid gosodiad yr ystafell peydr-X ac y byddai peydrau-X yn cael eu tynnu yn unol â'r arfer ar ôl i'r gwaith ailwampio ddod i ben. Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio

⁴ [Mae'r Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

offer pelydr-X yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod yr holl ddogfennau a gwybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried adolygu'r rheolau lleol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X mewn modd diogel ar ôl i'r gwaith ailwampio ddod i ben er mwyn cadarnhau p'un a oes angen gwneud unrhyw newidiadau ai peidio. Cytunodd y practis i wneud hyn drwy drefnu i'r Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd ymweld â'r practis ar ôl i'r gwaith ailwampio ddod i ben.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddu pelydrau-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwelsom sampl o gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â'r gwaith wrth staff uwch y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Gofal effeithiol

Gwelsom fod pob aelod o dîm y practis yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n effeithiol. Cawsom ein sicrhau bod amrediad o archwiliadau yn cael eu cynnal yn y practis. Fe'n hysbyswyd bod y staff clinigol yn cael eu hadolygu gan gymheiriaid, ond nid oedd yn hysbys inni pa mor aml mae hyn yn digwydd na thrwy pa ddull. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried ffurfioli'r broses ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. Cytunodd y practis i ystyried rhoi hyn ar waith.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion orthodontig cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig. At ei gilydd, roedd y nodiadau yn ddigon manwl. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai themâu cyffredin y dylid eu gwella. Roeddent fel a ganlyn:

- Nid oedd cadarnhad bod hanes meddygol cleifion wedi cael ei wirio yn ystod pob apwyntiad wedi'i gydlofnodi na'i gofnodi bob amser, a oedd yn golygu nad oedd y cofnodion bob amser yn gallu cadarnhau p'un a oedd y cofnodion meddygol wedi cael eu gwirio'n briodol
- Nid oedd iechyd ceg y cleifion bob amser yn cael ei gofnodi ar ddechrau triniaeth, a oedd yn golygu na ellid yn hawdd nodi unrhyw newidiadau
- Nid oedd canfyddiadau y tu allan i'r geg yn cael eu cofnodi'n gyson ar gyfer pob claf yn ystod y broses archwilio, a oedd yn golygu na allai'r nodiadau clinigol gadarnhau bob amser bod y canfyddiadau y tu allan i'r geg wedi cael eu gwerthuso'n briodol

O ganlyniad i rai o'r materion a nodwyd, gwnaethom argymhell i berchennog y practis ac i'r rheolwr y gallent ddymuno ystyried cyflwyno archwiliad cofnodion cleifion fel rhan o'u gweithgarwch gwella ansawdd. Cytunodd y practis i ystyried hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros gynnal sganiau pelydr-X a'r hyn a ganfuwyd gan yr orthodontyddion yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gweithredwyd y practis orthodontig yn effeithiol gan reolwr y practis a thîm o staff oedd yn brofiadol a brwdfrydig. Dangoswyd strwythur rheoli ac iddo linellau eglur o adrodd ac atebolrwydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff uwch y practis a'r tîm ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

Mae'r Ganolfan Orthodontig yn bractis orthodontig wedi'i hen sefydlu ac yn rhan o grŵp mwy o'r enw mydentist, sydd â mwy na 600 o bractisau deintyddol ac orthodontig yng Nghymru a Lloegr. Roedd gan reolwr y practis gyfrifoldeb cyffredinol am redeg y practis o ddydd i ddydd ac roedd yn cael ei gefnogi yn hyn o beth gan uwch nyrs. Cafodd llinellau eglur o adrodd ac atebolrwydd eu disgrifio gan bob un o aelodau tîm y practis. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth y tîm rheoli ddangos parodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn fwy aml bob bore. Dywedodd staff wrthym y gallent drafod unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda diweddariadau yn cael eu rhoi i'r staff.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn arfarniad ar eu perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Canfuom fod yr orthodontyddion, y deintyddion a'r staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael trwy'r bwrdd iechyd.

Roedd yr orthodontyddion a deintydd sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau orthodontig preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi cael eu symud o lawr daear y practis tra bod y gwaith ailwampio yn cael ei gynnal. Cytunodd rheolwr y practis i arddangos y tystysgrifau ar lawr cyntaf y practis, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, yn ystod y gwaith ailwampio. Roedd tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr orthodontyddion a oedd yn gweithio yn y practis. Rhoddwyd y rhain o fewn y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis orthodontig gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y Ganolfan Orthodontig yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁵ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁶ Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Orthodontig: Cynllun Gwella

Practis: Y Ganolfan Orthodontig

Dyddiad yr Arolygiad: 5 Ionawr 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
	<i>Nid oes angen cynllun gwella</i>				
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 8	Dylai'r practis gyflwyno proses er mwyn sicrhau bod lloriau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus rhwng pob apwyntiad. <i>Rheoliadau'r Gweithle (lechyd,</i>	Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9	Cwblhawyd. Mae staff wedi cael eu hysbysu am yr angen i fod yn fwy gwyliadwrus wrth sicrhau nad oes sbwriel ar y lloriau ac maent bellach yn brwsio/glanhau'r lloriau trwy gydol'r egwyl cinio – sydd ar adegau	STAFF CLINIGOL – Nyrs Arwain	8 Ionawr 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Diogelwch a Lles) 1992</i>		gwahanol – er mwyn sicrhau nad oes sbwriel yn ymgasglu yno yn ystod y dydd. Maen nhw hefyd yn cael eu glanhau yn drwyadl a'u dadheintio gan lanhawyr bob nos.		
Tudalen 9	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio mewn modd priodol (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r llawr nad yw wedi'i selio yn yr ystafell driniaeth y tynnwyd sylw'r practis ati.</p> <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	Mae hyn wedi derbyn sylw gan y tîm cyfleusterau, ac mae contractwyr yn gosod lloriau newydd sbon ar y ddau lawr fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei gynnal yn y practis.	Contractwyr a Rheolwr y Practis	31 Mawrth 2017
Tudalen 9	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr arwynebau gwaith yn yr ystafelloedd triniaeth a nodwyd wedi'u selio'n briodol fel y gellir eu glanhau'n effeithiol.	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau</p>	Fel yr uchod, mae hwn wedi cael ei ychwanegu at y gwaith sydd eisoes ar y gweill ac fe fydd cydymffurfiaeth ym mhob maes a nodwyd.	Contractwyr a Rheolwr y Practis	31 Mawrth 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05</i>	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14			
Tudalen 10	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl offer a'r cyfarpar sy'n cael eu defnyddio gan y staff clinigol mewn cyflwr addas a bod rhai newydd yn cael eu prynu yn ôl y galw.	Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9	Prynwyd offer newydd yn lle'r offer y nodwyd eu bod mewn cyflwr gwael a dywedwyd wrth y rheolwr y dylai gysylltu â'i thîm cydymffurfio neu ei thîm clinigol os oes angen cefnogaeth arni i awdurdodi offer clinigol angenrheidiol.	Rheolwr y Practis / Rheolwr Ardal Clinigol / Tîm cydymffurfio os oes ei angen	30 Ionawr 2017
Tudalen 10	Mae'n rhaid bod gan y practis broses gadarn er mwyn archwilio'r holl offer a deunyddiau nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach, a/neu sydd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben, a gwaredu arnynt mewn modd priodol. <i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05</i>	Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9	Atgoffwyd yr holl staff bod gwirio'r holl offer a deunyddiau i sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad dod i ben ac mewn cyflwr da bellach yn rhan o'r rhestr wirio wythnosol ac y dylent lofnodi i gadarnhau hyn. Dylid uwchgyfeirio unrhyw faterion at sylw rheolwr y practis. Y brif nyrs i gynnal hapwiriadau yn gyfnodol i sicrhau bod hyn yn digwydd.	Rheolwr y Practis / Prif Nyrs	30 Ionawr 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 11	<p>Rhaid i'r practis sicrhau mai dim ond un teclyn llaw deintyddol sy'n cael ei storio mewn bag wedi'i selio ar ôl cael ei ddadheintio.</p> <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05</i></p>	Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9	Hysbyswyd pob aelod o staff mai dim ond un teclyn llaw deintyddol y dylid ei storio mewn bag wedi'i selio ar ôl cael ei ddadheintio. Y brif nyrs fydd yn monitro hyn o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau.	Prif Nyrs	20 Ionawr 2017
Tudalen 13	<p>Rhaid i'r orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 3 a 4</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod gyda'r orthodontydd a bydd yn cael ei fonitro trwy gyfrwng cardiau cofnodi mewn archwiliadau chwe misol a bydd yr hyn a ddysgir ac unrhyw ganfyddiadau yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion rheoleiddiol yn cael eu bodloni.	Rheolwr y Practis / Orthodontydd / Tîm Clinigol os oes angen	24 Chwefror 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella</i>				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): **JANET HEWITSON**

Teitl: **RHEOLWR Y PRACTIS**

Dyddiad: **06/02/2017**